Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanfarian
**Ysgoldy'r Bont**
**Llanfarian**
**Aberystwyth**
**SY23 4UE**

**Dyddiad yr arolygiad: 12-13 Gorffennaf, 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Llanfarian yn 1973 ac fe'i lleolir dros dro yn Ysgoldy'r Bont yng nghanol pentref Llanfarian, ar gyrion tref Aberystwyth. Mae'r lleoliad yn symud yn y dyfodol agos i gaban ar safle'r ysgol gynradd leol. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Mae'r lleoliad yn gweithredu fel aelod o 'Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Ceredigion'. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o 'Mudiad Ysgolion Meithrin'.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod tymor ysgol. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd wyth plentyn tair oed ar y gofrestr. Saesneg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Nid oes plant o gefndiroedd ethnig o fewn y garfan bresennol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cefnogi addas yn eu lle.

Caiff y lleoliad ei arwain gan arweinydd profiadol sydd yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Caiff ei chefnogi gan ymarferydd profiadol llawn amser. Cafodd y lleoliad ei harolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin, 2010. Ym Mehefin 2011, derbyniodd y lleoliad dystysgrif 'Cylch Rhagorol' gan 'Mudiad Ysgolion Meithrin'. Dyma'r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Prif arfarniad**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r profiadau dysgu diddorol a ddarperir;
- mae'r plant yn gwneud cynnydd priodol;
- mae'r  addysgu'n dda ar y cyfan;
- caiff y plant ofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol;
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

### Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- arweinyddiaeth effeithiol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm da;
- ymrwymiad y staff i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant;
- y cynllunio addas i wella'r lleoliad ymhellach;
- cefnogaeth dda y pwyllgor rheoli a'r rhieni;
- y cydweithio agos gyda'r ysgol gynradd.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 ymestyn medrau cyfathrebu a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant ymhellach;

A2 gryfhau'r cynllunio i sicrhau cydbwysedd a dilyniant cyson yn y dysgu ar draws y meysydd;

A3 gwneud fwy o ddefnydd o ddeilliannau asesu i arwain y cynllunio ac ymestyn medrau'r plant yn gynyddol;

A4 ddatblygu gwybodaeth yr ymarferwyr o fedrau a phrosesau hunan arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro'r cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae cyflawniad y plant pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad yn eang a gwnânt gynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau meddwl, cyfathrebu a rhif yn gyson yn eu gwaith ar draws y meysydd dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau gwrando da wrth ganolbwyntio ar storïau sydd yn cael ei hadrodd ac ar gyflwyniadau'r ymarferwyr. Dangosant ddealltwriaeth dda o'r testun ac o eirfa'r Gymraeg. Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n gyson gyda lleiafrif ohonynt yn dangos gafael sicr ar ystod o eirfa. Er hyn, ymatebion byr a geir gan y mwyafrif. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau mewn ffurf print ac mae ganddynt wybodaeth gynyddol o synau rhai o brif lythrennau'r wyddor. Amlygant fwynhad wrth edrych ar a thrin llyfrau. Defnyddiant offer marcio yn bwrpasol mewn ystod o gyfryngau, gan ddangos ymwybyddiaeth sicr o rai o swyddogaethau ysgrifennu.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd hyderus o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Maent yn deall termau mathemategol, megis mawr/bach, llawn/gwag, mewn gweithgareddau ymarferol. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol ac yn datblygu dealltwriaeth briodol o dreigl amser yng nghyd-destun eu gweithgareddau bob dydd. Mae datblygiad medrau technoleg

gwybodaeth a chyfathrebu'r plant yn fwy anwastad. Mae lleiafrif yn gwneud defnydd hyderus o'r llygoden i symud gwrthrychau ar y sgrin. Gwna'r mwyafrif ddefnydd addas o offer gwrando, gan fwynhau storïau a chaneuon, ac o gamera a theganau symudol.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd effeithiol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau megis arsylwi ar anifeiliaid a chreaduriaid gwahanol yn yr amgylchfyd o'u hamgylch. Mae medrau personol a chymdeithasol y mwyafrif yn datblygu'n dda. Gwna'r plant ddefnydd hyderus o'u medrau corfforol a chreadigol mewn amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cysylltu'n briodol â'r thema gyfredol.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r ystod o weithgareddau sydd ar gael. Mae pob un ohonynt wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac wedi ffurfio perthnasoedd da gyda phlant eraill. Maent yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Ar y cyfan, mae ymddygiad y mwyafrif o'r plant yn dda. Maent yn cyd-chwarae'n rhwydd ac yn dangos gallu cynyddol i rannu adnoddau ac i aros eu tro. Mae'r plant hynaf yn gweithio'n lled annibynnol ac yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus.

Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Mae lefelau presenoldeb a phrydlondeb yn gyffredinol dda. Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn elwa o'r partneriaethau da gyda'r gymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Defnyddir fframweithiau cwricwlaidd priodol ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r cynllunio hirdymor yn seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Mae'r cynllunio tymor byr yn rhoi sylw priodol i'r medrau penodol i'w datblygu yn y corneli dysgu o amgylch yr ystafell. Mae'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau ffocws dan arweiniad oedolion yn fwy anwastad. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio yn cynnwys y manylder digonol i sicrhau cydbwysedd, dilyniant a pharhad cyson yn y dysgu, gan gynnwys datblygu medrau dysgu'r plant.

Mae ymarferwyr yn defnyddio’r amgylchedd dan do a’r amgylchedd awyr agored yn llawn i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae ymweliadau, megis â fferm leol a choedwig gyfagos, a gofalu am y pysgod a’r planhigion yn y lleoliad yn galluogi’r plant i gael dealltwriaeth dda bod angen trin yr amgylchedd a phethau byw gyda gofal. Mae trefniadau dyddiol y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn magu arferion da drwy ailgylchu a chasglu papur gwastraff.

Rhydd sylw da i ddatblygu'r Gymraeg ac anogaeth gyson i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae pwyslais addas ar hybu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru, megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd hefyd i’r plant i ddysgu am wyliau diwylliannau eraill, megis gŵyl Divali, drwy amrywiaeth o weithgareddau addas. Mae gweithgareddau tebyg yn dechrau hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o’r byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae’r addysgu’n dda ar y cyfan. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau addysgu ac adnoddau addas i gynorthwyo’r dysgu. Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n dda fel tîm ac yn cynnig cymorth cyson i’r plant. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol gyda’r plant yn ystod sesiynau stori a sesiynau grwpiau bach. Defnyddiant iaith raenus a strategaethau cwestiynu effeithiol sy’n datblygu geirfa’r plant. Ymunant yn egnïol yn y gweithgareddau megis chwarae rôl yn y tŷ bach twt a’r sesiynau canu. Rheolir ymddygiad yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau priodol mewn lle i adrodd ar gynnydd a datblygiad y plant. Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn arsylwi arnynt yn gyson wrth iddynt ymwneud â’u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol mewn llyfr nodiadau. Cofnodir sylwadau pellach ar ddatblygiad medrau’r plant ar daflenni cofnodi sy’n nodi cynnydd y plentyn yn briodol yn y chwe maes dysgu. Er hyn, ni wneir defnydd digonol o’r wybodaeth a gesglir i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu ac i ymestyn medrau’r plant yn gynyddol, gan gynnwys y plant mwy galluog. Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu’n gyson, yn anffurfiol a thrwy adroddiadau, am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i gefnogi iechyd a lles plant. Mae’r trefniadau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgynefino’n dda yn y lleoliad. Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae llinellau cyfathrebu priodol gydag asiantaethau perthnasol.

Mae profiadau dysgu priodol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae profiadau fel cynnig gweddi cyn amser byrbryd a gwaith ar stori’r Nadolig a dathliadau diolchgarwch yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol plant. Darperir cyfleoedd

rheolaidd i blant berfformio mewn cyngherddau ar y cyd gyda disgyblion yr ysgol gynradd, ymuno yng ngweithgareddau'r Urdd ac i gyfrannu at weithgareddau cymunedol.

Mae'r lleoliad yn bodloni rheoliadau a chyfrifoldebau diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac maent yn ymwybodol o'r gofynion. Ymgymerir ag asesiadau risg o'r safle yn rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Rhoddir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar. Mae gan y lleoliad nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Ceir cyflenwad digonol o adnoddau a chânt eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Gwneir defnydd addas o ymweliadau ac o ymwelwyr o'r gymuned i ymestyn profiadau'r plant.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd digonol. Cânt ei defnyddio'n llawn gan yr ymarferwyr. Defnyddir ardal fechan y tu allan i'r ystafell ar gyfer ystod o weithgareddau ond nid ydy'n addas ar gyfer gweithgareddau corfforol mawr.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn effeithiol gan arweinydd profiadol. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Llwyddir i greu amgylchfyd trefnus a phwrpasol i'r plant ac mae'r trefniadau dyddiol yn rhedeg yn esmwyth. Mae polisïau addas, megis amddiffyn plant a sicrhau cyfleoedd cyfartal, yn weithredol.

Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn cynnig cefnogaeth a chymorth o ansawdd da. Mae gan yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd yn y lleoliad ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Derbynnir gwybodaeth gan y prif ymarferydd yn gyson ac mae perthynas waith agos rhwng y prif ymarferydd a'r person cofrestredig.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd leol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gyffredinol o gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ond nid oes gweithdrefnau

mwy ffurfiol ar waith i fonitro ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gychwynnwyd cyn yr arolygiad gan yr arweinydd ac athrawes gyswllt yr awdurdod lleol yn fan cychwyn da. Mae'r cynllun gwella sydd wedi deillio o hyn yn adnabod meysydd addas ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad. Defnyddir holiaduron i geisio barn rhieni/gofalwyr a thrafodir agweddau ar y ddarpariaeth yn rheolaidd gyda'r athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae gweithdrefnau priodol mewn lle i arfarnu gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Gwnânt ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir. Adlewyrchir hyn yn eu dealltwriaeth o egwyddorion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nodau ac amcanion clir sy'n cael eu rhannu gan yr holl bartneriaethau. Mae perthynas gref rhwng y lleoliad a'r rhieni/ gofalwyr. Cadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau gyda'r rhieni/gofalwyr yn ystod yr arolygiad ac yn eu hymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni/gofalwyr ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol i rieni newydd a gwahoddir rhieni/gofalwyr i'r cyngherddau a digwyddiadau a drefnir. Mae'r plant yn mynd adref â samplau o'u gwaith i'w rhannu gyda rhieni/gofalwyr.

Sefydlwyd perthynas waith adeiladol gyda'r ysgol gynradd leol. Trefnir ymweliadau gan staff yr ysgol a throsglwyddir gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad y plant. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol megis cyngherddau a mabolgampau. Mae ymweliadau â'r gymuned a'r cyfleoedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau cymunedol yn gwneud cyfraniad pwysig at gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae'r bartneriaeth dda gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol ar y cyfan. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant rheolaidd. Ceir adnoddau dysgu digonol ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hyrwyddo'r dysgu.

Mae gan yr arweinydd a'r person cofrestredig ddealltwriaeth dda o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn ôl yr anghenion. Caiff penderfyniadau ariannol eu trafod gan y pwyllgor a'u rheoli'n effeithlon gan y trysorydd. Mae arian ychwanegol yn cael ei godi trwy ymdrechion caled y pwyllgor rheoli, y rhieni, yr ymarferwyr a'r gymuned. Llwyddwyd i godi symiau sylweddol, gan gynnwys grantiau, i sicrhau a lleoli caban pwrpasol i'r lleoliad ar safle'r ysgol gynradd. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd saith o holiaduron rhieni a mynegwyd barnau cadarnhaol iawn gan bron pob un. Dywedant fod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Credant fod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol gynradd. Mae bron pob un yn dweud fod eu plant yn gwneud cynnydd da. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n dda. Maent o'r farn bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

**Ymatebion i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn hapus i sgwrsio'n syml am eu hoff weithgareddau.

## Atodiad 2

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)